Holiadur Gwaith Cartref Adran Iau

Er gwybodaeth :
Dosbarthwyd 70 holiadur ynglyn â thasgau gwaith caretref yn yr Adran Iau.Diolch i'r 29 rhiant am eu cwblhau.

Dyna oedd y canfyddiadau:
Nododd 13 rhiant - Hoffwn i'm plentyn gael gwaith cartref yn **rheolaidd**
Nododd 13 rhiant - Hoffwn i'm plentyn gael gwaith cartref yn **achlysurol**
Nododd 3 rhiant **nad oeddynt** eisiau i'w plentyn gael tasgau gwaith cartref
Nododd 20 rhiant eu bod yn hapus i'w plentyn gael tasgau darllen a rhif **cyfrifiadurol**

Cynnigwyd y sylwadau isod am y math o dasgau i'w gosod:
- Atgyfnerthu sgiliau Rhifedd/ Llythrennedd / Sillafu / Tablau disgyblion a wneir yn y dosbarth.
- Gosod tasgau byr a dim gormod ohonynt.
- Tasgau i ddatblygu llawysgrifen glwm a thasgau darllen.
- Amrywiaeth o dasgau *e.e gwyddoniaeth , ysgrifennu creadigol , tasgau celf neu brosiect i gyd-fynd â'r gwaith thema.*
- Nododd ychydig o rieni bod y tasgau celf a osodwyd dros y flwyddyn diwethaf yn gostus ac yn cymryd llawer o amser i'w cwblhau adref. (er nodwyd hefyd bod y disgyblion wedi mwynhau y tasgau hyn).

Derbyniwyd y sylwadau canlynol :
- Nododd ychydig o rieni nad oedd ganddynt fynediad i gyfrifiadur.
- Nodwyd y byddai disgyblion yn derbyn digon o waith cartref yn yr Uwchradd a bod hi'n bwysig i blant cynradd fwynhau eu haddysg a threulio eu hamser hamdden gyda'u teuloedd ac efallai gosod tasgau i'r teulu.
- Nodwyd bod gwaith cartref yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol ac yn eu paratoi tuag at fynd i Ysgol Uwchradd.
- Nodwyd bod y rhaglenni digidol yn swnio'n ddiddorol ac yn fodd i ddatblygu sgiliau a ddysgwyd yn yr ysgol.
- Nododd un rhiant nad oedd disgyblion yr Adran Iau yn derbyn llyfrau i'w darllen adref yn wythnosol. Yn anffodus bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r drefn gan nad oedd yn gost effeithiol. Doedd llyfrau ddim yn cael eu danfon nol i'r ysgol neu roeddynt wedi eu difrodi.

Yn dilyn trafodaeth staff penderfynwyd ar y camau gweithredu canlynol:
- Yr ysgol i fuddsoddi yn y ddwy raglen gyfrifiadurol
  T.T.Rock Stars i ddatblygu sgiliau tablau y disgyblion a Reading Eggs i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu Saesneg y dsgyblion.
  Gobeithio y byddwn wedi cael mynediad i bob disgybl a chyfrinair erbyn yr wythnos yn dilyn yr hanner tymor.
  Bydd pob athro /wes CA2 yn creu taflen o dasgau Gwaith Cartref i'w dosbarth ar gyfer pob hanner tymor.
- Disgwylir i ddisgyblion gyflawni tasgau byr mewn Rhif a Darllen yn ddigidol yn wythnosol.Gellir cael mynediad i'r rhain ar ffon / tabled /ipad neu chromebook.
  Bydd dewis hefyd o 6 tasg estynedig ychwanegol i'r disgyblion . *e.e gwaith creadigol/ creu cyflwyniad ar y cyfrifiadur /tasg gwyddoniaeth, data, rhif a chelf*
- Bydd cyfle i bob rhiant drafod gyda athro/athrawes eich plentyn yn y nosweithiau rhieni a gynhelir wythnos Hydref 21ain – 23ain.

Diolch i chi

Key Stage 2 Homework

For your information:
70 questionnaires were distributed to KS2 parents, 29 were returned.

These were the results:

13 would like their child to have **regular** homework tasks.
13 would like their child to have **occasional** homework tasks.
3 parents did not want their child to receive homework tasks
20 parents would be happy with **digital** numeracy and reading tasks.

These were the tasks suggested by parents:

- Literacy/ Numeracy /Spelling and Number table tasks to re-inforce skills taught at school.
- Short and not too many tasks.
- Reading and handwriting tasks to develop cursive writing skills.
- A variety of tasks including science, creative writing, art or projects to coincide with themes of work.
- A few parents noted that they felt the Art projects last year were expensive and time consuming. However, they noted that the children enjoyed the tasks.

Further comments were as follows:

- A few parents noted that they had no access to a computer.
- A few parents noted that pupils will receive plenty of homework tasks in Secondary School and that it would be more beneficial for junior children to spend their leisure time with the family having family tasks.
- Others noted that homework tasks does discipline pupils to work independently preparing them for Secondary School.
- Many were interested in the digital programmes since they would enhance learning skills taught at school.
- One parent noted that Junior Children do not receive weekly reading books. Unfortunately, this practice proved very costly since the few returned books were either damaged or not returned at all.

Following discussion with staff we have decided on the following:

1. The school will invest in the two digital programmes
T T Rock Stars to develop Number Tables and Reading Eggs to develop reading and writing skills in English.
I hope that we will have received access and passwords for each pupil by the week following the half term break.

2. Teachers in KS2 will create a Homework sheet for their class every half term.
    - Pupils will be expected to complete 2 short tasks in Numeracy and Reading every week. These may be accessed on iPhone/tablet/iPad or Chromebook.
    - Pupils will also be given an opportunity to choose 6 extended tasks to be completed during the half term *e.g. creative writing, I T presentations, data, numeracy and art projects.*

3. You will be able to discuss further with your child's teacher during Parents Evenings on the week commencing October the 21st- 23rd.

Thank you